CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL MAI, 9, 2023

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn**
**Neuadd Bentref, Llanelltyd**
**Nos Fawrth, Mai 12, 2015 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Llinos Rowlands, Llinos Williams, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer, Gwenan Owen ac Eleri Jones. Hefyd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Gareth Ellis.

**2. Dewis Swyddogion**

Cadeirydd: Simon Evans
Is Gadeirydd: Gareth Ellis

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Canolfan y Pentref Llanelltyd (1): Llinos Williams
Neuadd Bentref Bontddu (1): Llinos Rowlands
Materion Mynwent Llanelltyd (2): Geraint Rowlands ac Eleri Jones
Un Llais Cymru (2): Simon Evans a Gareth Ellis

**3. Datgan diddordeb**:

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ebrill 11, 2023**

Cynigwyd y cofnodion gan Elfed ap Gomer ac eilwyd gan Llinos Williams .

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Ebrill 11, 2023**

Eitem 1. Derbyniwyd llythyr (19/4/2023) oddi wrth Mr Pike yn diolch am y siec. Roedd yn holi pa gyfraniad sydd wedi ei roi i Llanelltyd am diffibriliwr – rhoddwyd gwybod iddo does dim cyfraniad wedi ei roi i Llanelltyd. Roedd yn holi hefyd os rydym yn gwneud busnes trwy on-line banking oherwydd fydd rhaid iddo fynd allan o'i ffordd i roi siec yn y banc.

Eitem 7.b. Anfonwyd llythyr (17/4/2023) i Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn cadarnhau eu penodiad fel ein Archwilydd Mewnol. (Derbyniwyd templed ganddynt i'w gwblhau. Amgáu mae rhestr o wybodaeth maent ei angen i'r archwiliad).

Eitem 7.a. Llythyr (28/4/2023) oddi wrth Archwilio Cymru gyda dogfennau sydd angen fwy o wybodaeth at yr archwiliad.

Eitem 12.dd. Llythyr ateb (27/4/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwyned yn rhoi gwybod:

1. mae'r Arolygwr Priffyrdd wedi bod i'r safle a does dim diffygion yno sydd angen sylw ar hyn o bryd ond mi fydd yn cadw golwg ar y safle.

2. mae'r gwaith o ysgubo'r ffordd a chlirio'r cwterydd ar Ffordd Cwm Hirgwm, Bontddu ar y rhaglen i dderbyn gwaith.

**6. Materion Ariannol**

a. Llythyr (17/4/2022) a dogfennau polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth Zurich am y cyfnod 01/6/2023 i 31/5/2024. Y swm i'w adnewyddu yw £598.05. (Tâl flwyddyn ddiwethaf oedd £557.07). Cytunwyd derbyn 'Long Term Agreement' am 5 blynedd gyda Zurich h.y. 2020-2025 (Cofnodion Mehefin 9, 2020, Eitem 6.dd.).

Penderfynwyd talu'r swm.

b. Llythyr (26/4/2023) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept £3,750 yn ein cyfrif ar 29/4/2023 Taliad am hanner blwyddyn.

c. Siec am £278.75 oddi wrth Ms Sarah Hall (5/5/2023). Taliad at Alison Maeve Hall – claddu gweddillion o'r amlosgfa.

c. Balans yn y banc ar 29/4/2023: £11,778.66. (29/4/2022: £12,024.63).

**7. Archwilio**

a. Anfonwyd (4/5/2023) i'r aelodau copi o adroddiad 'Cyfrifon Cyngor Cymuned Llanelltyd 2022-2023'.

Roedd yr aelodau yn fodlon gyda'r adroddiad.

b. Mae angen i'r Cadeirydd arwyddo Ffurflen Flynyddol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

Arwyddodd y Cadeirydd y Ffurflen

**8. Mynwent Llanelltyd**

a. Llythyr (3/5/2023) oddi wrth Sarah Hall a'i theulu o Norwy yn gwerthfawrogi y gwaith sy'n cael ei wneud yn cadw'r fynwent yn daclus. Mae hi a'i theulu yn gwneud trefniadau i gladdu llwch eu mam, sef Mrs Alison Maeve Hall, ym medd John Ruthven Hall ym mis Gorffennaf.

 Llofnod: Dyddiad:

**9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (28/4/2023) yn rhoi gwybod am Gronfa Cymunedau Eryri 2023-2024 bydd yn agor am geisiadau i gynorthwyo cymunedau i gynnal a gwella eu hansawdd a bywyd. Dyddiad cau yw 2/5/2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**10. Gohebiaeth**

a. Llythyr (12/4/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar Zoom ar ddydd Mercher, Ebrill 19 am 7.00yh. Amgáu mae'r Agenda, a Chofnodion Cyfarfod Cyffredin Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhaliwyd yn Chwefror 15, 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (21/4/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am hyfforddiant bydd ym mis Ebrill a Mai 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (9/5/2023) oddi wrth Swyddog Datblygu Iaith, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Menter Iaith Gwynedd yn rhoi arweiniad a chefnogaeth i siaradwyr Cymraeg ar sut i gefnogi dysgwyr Cymraeg. Bydd y digwyddiad ar Fai 23ain drwy gyfrwng Zoom.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Mae grantiau Cist Gwynedd yn agos ym Mis Mai eleni.
Mae grantiau cymunedol ar gael ar gyfer grwpiau cymunedol £10,000 a £5000 ac mae yn bosib i neuaddau gael y pres yma i wneud gwelliannau ee. Cegin newydd neu ffenestri dwbwl. Nid yw y pres ar gael ar gyfer cynnal a chadw.
Mae pres SPF i gael ar gyfer chwaraeon os yw y cynllun yn cynnwys elfennau newydd.
Mae Cronfa Degwm ar gael ar gyfer Eisteddfodau.
Mae nifer o grantiau eraill agor ym Mis Mai.
Bydd Huw Antur( Llanuwchllyn) yn gweithio o Ddolgellau yn rhoi cymorth i grwpiau wneud ceisiadau.
Bydd angen gwario y pres cyn 1/1/24
Rhannwch y wybodaeth yma gyda pwy bynnag sydd a ddiddordeb.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

 Llofnod: Dyddiad:

b. Cafwyd wybod gan Cyng. Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd) nid oes gan y Parc polisi cynllunio yn ffafrio safleoedd carafannau teithiol er maent yn adolygu eu Cynllun Datblygu Lleol Eryri ar hyn o bryd.

Anfonwyd llythyr i'r aelodau yn rhoi manylion o'r mater.

**12. Materion Brys**

a. Rhoddwyd gwybod i Hawliau Tramwy Meirionnydd, Cyngor Gwynedd (13/4/2023) i glirio ffens, o eiddo Cambrian Cottage, Taicynhaeaf, sydd wedi disgyn ar lwybr cyhoeddus (rhif 67) sy'n arwain tua'r afon.

Cafwyd ateb (17/4/2023) yn rhoi gwybod bod y ffens wedi cael ei chlirio

b. Llythyr (9/5/2023) oddi wrth Alba Mineral Resources (trwy law Elfed) yn rhoi gwybod bydd gwaith archwilio o'r awyr gyda 'drone' yn cael ei wneud o'r tir gogledd o'r ffordd A496 ym mis Gorffennaf. Ni fydd archwiliad yn cael ei wneud yn ardal Taicynhaeaf.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Mae dryswch ynglŷn ag arwydd newydd sydd wedi cael eu gosod wrth y Vanner gan Alun Griffiths Contractors yn eu gwaith o wella'r ffordd A470. Nid yw'r arwydd yn dangos y milltiroedd yn gywir.

ch. Dywedodd y Cadeirydd mi fydd yn cael triniaeth ar ei goes yn y dyddiau nesaf.

d. Dywedodd y Clerc ei fod yn ymddeol o'i swydd ym mis Medi.

----------